

---

## **Ymagwedd Ofcom at orfodi**

Ymgynghoriad ar ddiwygio'r Canllawiau Gorfodi

---

### **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mai 2022

Dyddiad cau ar gyfer derbyn Ymatebion: 19 Gorffennaf 2022

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

**Rydym yn ymgynghori ar ddiwygiad arfaethedig o'n Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio i gynnwys pwerau gorfodi newydd a'u gwneud yn haws eu deall a'u dilyn.**

Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol, yr awdurdod ar gyfer cystadleuaeth a'r gorfodwr dynodedig ar ran cyfraith diogelu defnyddwyr ar gyfer sector cyfathrebiadau'r DU. Yn y rôl hon, efallai y bydd angen i ni gymryd camau gorfodi er budd dinasyddion a defnyddwyr, a lle bo'n briodol i hyrwyddo cystadleuaeth. Mae ein Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio'n nodi sut y bydd Ofcom yn mynd ati i orfodi gofynion rheoleiddio a chyfraith diogelu defnyddwyr mewn perthynas â'r diwydiannau yr ydym yn gyfrifol amdanynt.

## **Beth rydym yn ei gynnig - yn gryno**

**Ehangu'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio i gynnwys pwerau gorfodi newydd.** Rydym yn cynnig y bydd y canllawiau diwygiedig yn berthnasol i weithgarwch gorfodi Ofcom mewn tri maes newydd:

- rhwymedigaethau a osodir ar lwyfannau rhannu fideos o dan Ran 4B Deddf Cyfathrebiadau 2003;
- gofynion a osodir ar weithredwyr gwasanaethau hanfodol ar gyfer yr is-sector seilwaith digidol o dan Reoliadau Systemau Gwybodaeth a Rhwydweithiau 2018; a'r
- fframwaith diwygiedig ar gyfer diogelu cadernid a chydnerthedd rhwydweithiau a gwasanaethau telathrebu yn y DU fel y nodir yn Neddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021.

**Ailstrwythuro'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio i'w gwneud yn haws eu dilyn.** Rydym yn bwriadu symud llawer o'r deunydd a oedd wedi'i gynnwys yn flaenorol mewn troednodiadau technegol a chyfreithiol ategol i atodiadau sy'n benodol i gyfundrefn, er mwyn ei gwneud yn haws deall sut y cymhwysir yr ystod o bwerau gorfodi gwahanol Ofcom. Mae'r adran ar setliad wedi'i symleiddio hefyd, gan ein bod o'r farn y gellir amlinellu'r broses hon yn fwy cynnil.

**Diweddarau ac egluro testun y Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio i adlewyrchu ein profiad o gynnal ymchwiliadau yn ymarferol.** Mae ehangder ein dyletswyddau rheoleiddio yn golygu y gall yr ymagwedd weithdrefnol briodol amrywio o achos i achos. Rydym yn cynnig gwelliannau i'r canllawiau sydd â'r bwriad o:

- gydnabod lle y mae'r ystod ehangach o bwerau rheoleiddio yn gosod rhwymedigaethau gweithdrefnol gwahanol ar Ofcom;
- adlewyrchu ein profiad bob dydd o ymchwiliadau gorfodi; a
- dileu ailadrodd ac egluro'r camau gweithdrefnol y bwriadwn eu dilyn.

**Cynnwys gwybodaeth am atebolrwydd sifil am dorri gofynion rheoleiddio.** Mewn rhai amgylchiadau, gall personau sy'n cael colled neu ddifrod o ganlyniad i dorri gofynion rheoleiddio a osodwyd gan Ofcom ddwyn achos yn uniongyrchol yn erbyn y cwmni perthnasol, ond yn gyntaf mae'n rhaid iddynt gael caniatâd gan Ofcom i wneud hynny. Rydym yn bwriadu cynnwys esboniad o'r broses ar gyfer gwneud cais am ganiatâd yn y canllawiau a sut y bydd Ofcom yn ymdrin â cheisiadau o'r fath.